| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **27 Mai 2014** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Cynghorydd Huw Jones / Hywyn Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **David Morgan** |
| **Teitl:** | **Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn cynnig mabwysiadu Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd newydd ar gyfer y sir fydd yn disodli polisi 1997, sydd yn awr wedi dyddio. Cafwyd cryn dipyn o ddiddordeb penodol gan Aelodau a'r Cyhoedd o ran gallu newid enwau strydoedd er mwyn ailenwi rhai strydoedd sydd ag enw mewn un iaith yn unig i gael enw dwyieithog newydd. Mae darpariaeth ar gyfer hyn wedi'i chynnwys yn y polisi ynghyd â nifer o ddiweddariadau ac addasiadau i'r polisi.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad gan y Cabinet i gymeradwyo, addasu neu wrthod y Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd arfaethedig newydd (Atodiad 1) a chymeradwyo newid y ddirprwyaeth o Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i Bennaeth Gwella a Moderneiddio Busnes.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Yr argymhellion yw:

1. Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Enwi a Rhifo Strydoedd arfaethedig newydd.

2. Dylai'r Cabinet nodi bod y swyddogaeth enwi strydoedd a rhifo yn cael ei rheoli gan y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio.

## 4. Manylion am yr adroddiad.

Cyfrifoldeb y Tîm Ymchwil a Gwybodaeth Gorfforaethol o fewn y Gwasanaeth Gwella a Moderneiddio Busnes yw'r polisi enwi a rhifo strydoedd. Y rheswm am hyn yw bod angen y sgiliau rheoli gwybodaeth er mwyn cynnal tir y cyngor a rhestr enwau eiddo a rhestr enwau strydoedd sydd o fewn y tîm hwn. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae'r tîm wedi ennill gwobrau aur a'r gorau yng Nghymru am ansawdd eu rheolaeth o ddata cyfeiriadau a strydoedd.

Mae ein Polisi Enwi a Rhifo strydoedd cyfredol yn dyddio'n ôl i 1997, yn fuan ar ôl ffurfio Cyngor Sir Ddinbych. Ar ôl archwilio'r polisi'n ddiweddar canfuwyd ei fod yn ddiffygiol yn y meysydd canlynol:

1. Diffyg eglurder o ran newidiadau i enwau strydoedd a pha ddeddfwriaeth y dylid ei defnyddio
2. Diffyg gweithdrefn er mwyn galluogi newidiadau i enwau strydoedd mewn dull cyson.
3. Dim digon o ddulliau i ddiogelu yn erbyn enwau dadleuol neu amhriodol ar strydoedd.

Ar yr un pryd cafwyd cryn dipyn o ddiddordeb sylweddol yn y mater o enwi strydoedd yn ddwyieithog gan yr Aelodau, y cyhoedd ac Aelodau'r Cynulliad. Mae pob un o'r pwyntiau hyn wedi'u hystyried wrth lunio drafft o'r polisi arfaethedig.

Mae'r polisi yn egluro y bydd y cyngor yn dilyn darpariaethau Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925 o ran enwi a rhifo strydoedd gan gynnwys pan fydd cais i newid enw cyfredol. Mae'r polisi'n nodi bod yn rhaid i'r holl enwau strydoedd newydd fod yn enw Cymraeg neu'n ddwyieithog sy'n cyd-fynd â'r dreftadaeth leol a hanes yr ardal. Mae'n egluro na fydd strydoedd yn cael eu hailenwi fel arfer oni bai bo galw am hyn, mae'r polisi'n amlinellu gweithdrefn newydd i'w dilyn er mwyn cyflawni hyn. Mae'r weithdrefn hon yn cynnwys ymgynghori gyda'r trigolion lleol a budd-ddeiliaid ehangach gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned.

Mae'n rhaid i Gyngor Sir Ddinbych gymeradwyo'r holl enwau strydoedd newydd neu'r rhai sy'n cael eu newid. Mae'r polisi'n egluro bod angen osgoi enwau all beri tramgwydd, achosi dryswch neu'n ddadleuol. Mae hyn yn cynnwys y cynnig fod 'Na fydd unrhyw gynnig i enwi stryd (neu adeilad) ar ôl unigolion penodol (byw neu farw) yn cael eu cymeradwyo'.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid yw'r newidiadau arfaethedig yn cyfrannu'n uniongyrchol at Flaenoriaeth Corfforaethol. Bydd, fodd bynnag, o fudd i drigolion a chymunedau lleol, drwy ganiatáu enwi strydoedd yn unol â'r diwylliannau lleol. Bydd hefyd o fudd i'r gwasanaethau brys drwy sicrhau enwau strydoedd clir a gwella'r rhwyddineb er mwyn canfod eiddo ayyb.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ni fydd y polisi ei hun yn peri costau yn awtomatig. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd newidiadau i enwau strydoedd yn deillio o'r polisi. Bydd dwy set o gostau ar gyfer newidiadau i enwau strydoedd. Yn gyntaf, mae'n rhaid cael ymarfer ymgynghori gyda'r trigolion lleol ar gyfer newid enw stryd ac os yw'n symud ymlaen i'r ail gam bydd angen gosod rhybuddion swyddogol yn y stryd (yn debyg i'r rhybuddion a roddir ar lampau stryd pan geisir am ganiatâd cynllunio). Bydd ffi weinyddol fechan am hyn i'w dalu gan yr un sy'n cynnig y newid neu gan noddwyr y Cyngor Tref neu Gymuned.

Yn ail, bydd cost i osod arwyddion stryd newydd. Cost cynhyrchu a gosod arwydd newydd yw tua £200-£220 gan ddibynnu os oes angen un llinell neu ddwy ar yr arwydd. Bydd nifer yr arwyddion sydd angen eu gosod ar stryd yn amrywio gan ddibynnu ar hyd y stryd ayyb. Bydd yn rhaid i ni osod arwyddion mewn lleoliadau rhesymol, ar gorneli a chyffyrdd. Fel arfer bydd y gost yn cael ei hadennill gan y

Cyngor Tref neu Gymuned berthnasol, os ydynt wedi cytuno i fod yn noddwyr y newid. Os yw'r enw wedi'i gytuno heb nawdd (e.e. ar gais y gwasanaethau brys) yna bydd yn rhaid i Gyngor Sir Ddinbych dalu am osod arwyddion newydd.

Yn olaf, mae risg bychan y bydd her gyfreithiol o ran Newid Enw Stryd (er y dyluniwyd y broses ymgynghori er mwyn atal hyn). Byddai angen amser a chymorth staff o Adran y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd. Ni fyddai modd adennill y costau hyn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Cynhaliwyd asesiad o effaith ar gydraddoldeb ac mae ynghlwm. Cynigwn y byddwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth o ran materion cydraddoldeb all godi yn yr adroddiad monitro sy'n cael ei gyflwyno i'r pwyllgor archwilio.

**8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae'r egwyddor o newid y polisi yn ymwneud â newid enwau strydoedd wedi'i drafod yn fforwm dwyieithrwydd yr Aelodau ac wedi hynny ymgynghorwyd yn fanwl gydag aelod penodol o'r grŵp. Yna cylchredwyd drafft y polisi i'r budd-ddeiliad mewnol perthnasol yn adrannau amrywiol y cyngor. Codwyd y mater mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad sydd wedi gofyn am adroddiad monitro ynglŷn ag enwi a rhifo strydoedd mewn chwe mis.

Awgrymodd un ymgynghorai y dylid caniatáu enwi strydoedd ar ôl unigolion mewn rhai amgylchiadau. Fodd bynnag, nid ydym wedi newid y polisi mewn perthynas â hyn oherwydd yr anawsterau o ran diffinio pryd y byddai'n briodol enwi stryd ar ôl unigolyn a phryd na fyddai'n briodol gwneud hynny.

Yn olaf, yn ystod yr ymgynghoriad cododd y posibilrwydd o gael Cynghorau Tref a Chymuned yn noddwyr ar gyfer newid enwau strydoedd. Rydym yn cydnabod bod angen trafod gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned ynglŷn â rôl noddwyr arfaethedig newidiadau i enwau strydoedd yn eu hardal. Fodd bynnag, teimlwyd bod angen safbwynt y Cabinet ynglŷn â'r egwyddor hwn cyn ymgynghori â'r Cynghorau Tref a Chymuned o ran y manylion ymarferol. Nid yw'r polisi fel y'i cynigir yn gosod unrhyw ofyniad ar y Cynghorau Tref a Chymuned i fod yn rhan o enwi a rhifo strydoedd mewn unrhyw fodd. Mae'n syml yn darparu'r posibilrwydd o gael Cynghorau Tref a Chymuned yn noddwyr ar gyfer newidiadau i enwau strydoedd os dymunent. Disgwyliwn y bydd rhai Cynghorau Tref a Chymuned yn dymuno cyfranogi fwy nag eraill o ran y materion hyn a dymunwn ddarparu'r hyblygrwydd hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Dylai'r polisi geisio sicrhau bod y risg o gostau ychwanegol i'r cyngor yn cael eu cadw mor isel â phosibl.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae dwy risg yn bosibl o ran y polisi. Yn gyntaf, os yw'r galw i newid enwau'r strydoedd yn fawr yna gall olygu goblygiadau ariannol i'r awdurdod lleol neu ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned os yw'r ceisiadau'n cael eu cymeradwyo. Os byddai nifer fawr o geisiadau'n cael eu gwrthod yna gallai hyn gael effaith negyddol ar enw da.

Yn ail, mae risg y ceir heriau cyfreithiol ar ôl llunio rhybudd i ailenwi'r stryd. Mae'r broses ymgynghori fydd yn cael ei chyflawni cyn cyflwyno unrhyw rybudd wedi'i dylunio i ddatrys unrhyw faterion posibl cyn cyrraedd cam her gyfreithiol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'r prif bŵer i wneud y penderfyniad yn deillio o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1925 (Adrannau 17 i 19 a 29 i 31). Mae'r offeryn yn rhoi grym i Awdurdodau Lleol i gyflwyno a derbyn rhybuddion enwi strydoedd cyn enwi stryd, i gyflwyno gorchmynion i enwi strydoedd, ac i addasu enw stryd, a gorfodi arddangos enwau'r strydoedd swyddogol. Mae'n diddymu adran 160 o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1875 a Deddf Cymal Gwella Tref 1847.

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 (Adran 180 (3)) yn berthnasol yn eilaidd. Mae'r offeryn hwn yn egluro nad oes modd cymhwyso Deddf Iechyd Cyhoeddus 1925 a'r Deddf Cymal Gwella Tref 1847 gyda'i gilydd. Mae hyn yn berthnasol gan fod rhai o'r arferion ym Mholisi Enwi a Rhifo Strydoedd (1997) blaenorol Cyngor Sir Ddinbych yn gysylltiedig â Deddf 1847.